**ADRODDIAD I'R CABINET**
12 HYDREF 2021

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Awst 2021

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Nodi fod effaith ariannol Covid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

- Nodi fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.

- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eleni, tra fod gwelliant nodedig yn rhagolygon yr Adran Plant a Theuluoedd.

- Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**).

  - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:

  - Tanwariant o (£285k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - Tanwariant net o (£1,957k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2021/22, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd yn Bwrdeistrefol yn gorwario ar ddiwedd y flwyddyn tra fod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

## 3. Covid

Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 ac yn £5.6 miliwn hyd yn hyn eleni. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.

Yn dilyn i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol, yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth dros £4.3 miliwn wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst, gyda chyllid o dros £3.1 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

O ran y colledion incwm, roedd gwerth y cais am y chwarter cyntaf dros £1 miliwn, gyda £0.8 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

## 4. Sefyllfa Arbedion

Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod dros £32.7 miliwn sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda cynlluniau gwerth £855k, tra fod £673k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

## 5. Adrannau'r Cyngor

Yr hyn sydd yn amlwg iawn eleni yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal oedolion a'r maes gwastraff, tra fod dyraniad adnodd ychwanegol a dileu cynlluniau arbedion yn golygu rhagolygon sefyllfa ariannol gytbwys gan yr Adran Plant a Theuluoedd. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

### 5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Rhagwelir gorwariant o £1.4 miliwn eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Y prif feysydd gorwariant yw gwasanaethau pobl hŷn, anableddau dysgu a gofal cymunedol. Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda gwerth dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Awst.

Bydd yr Aelodau Cabinet yn cofio iddynt ganiatáu gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

### 5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Yn dilyn i'r Cyngor ddyrannu £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllidebu 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu, mae'r rhagolygon ariannol ar hyn o bryd yn addawol iawn.

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau fod y pwysau mewn gwahanol feysydd yn is na lefelau 2020/21, ond fod gorwariant yn parhau yn y maes Ôl-16 ac Arbenigol/Derwen.

### 5.3 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Y maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £673k mewn nifer o feysydd. Mae'r adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid i gydymffurfio efo'r rheolau, gyda Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu am fisoedd cychwynnol y flwyddyn, ac rydym yn ffyddiog y bydd Llywodraeth

Cymru yn parhau i'n digolledu am y costau ychwanegol am weddill y flwyddyn.

## 5.4 Byw'n Iach

Yn ystod 2020/21 gwelwyd goblygiadau'r argyfwng ar gwmni Byw'n Iach gyda cholled ariannol sylweddol oedd bron i £2.7 miliwn am y flwyddyn ariannol. Llwyddwyd i adennill y golled ariannol yn ei gyfanrwydd drwy hawlio drwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ynghyd â'r cynllun Saib Swyddi (Ffyrlo).

O ran y rhagolygon eleni, bydd hawliadau gwerth oddeutu £1.2 miliwn yn cael eu hawlio gan y Llywodraeth am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae'n edrych yn debygol y bydd y gefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth yn parhau am weddill y flwyddyn ariannol. Felly, er y bu adroddiad i'r Cabinet 9 Mawrth 2021, oedd yn nodi fod y Cyngor yn tanysgrifennu y golled i Byw'n Iach, nid yw'n ymddangos y bydd y golled yn disgyn ar y Cyngor eleni.

## 5.5 Corfforaethol

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ac hefyd yn gyfrifol am y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Y pwysau ar nifer o gyllidebau gan gynnwys costau cyfalaf, ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

## 6. Casgliad Cyffredinol

Unwaith eto eleni, mae effaith ariannol Covid yn amlwg iawn ar y ffigyrau, gyda methiant i wireddu arbedion yn ffactor amlwg gan y ddwy adran sydd yn gorwario fwyaf sef yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant gan y mwyafrif o'r adrannau ynghyd â chyllidebau Corfforaethol.

## 7. Camau nesaf ac amserlen

Bydd y cyfrifwyr yn parhau i hawlio am y costau ychwanegol a'r colledion incwm perthnasol i Covid gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 18 Ionawr 2022 ar sefyllfa Tachwedd 2021.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng Covid19